



Maniffesto ar gyfer Etholiad y Senedd 2026

TACHWEDD 2025

Cefndir CIEEM

Y Sefydliad Siartredig Ecoleg a Rheolaeth Amgylcheddol (CIEEM) yw'r corff proffesiynol arweiniol ar gyfer dros 9,000 o ecolegwyr a rheolwyr amgylcheddol ledled y DU ac Iwerddon, gan gynnwys dros 550 sy'n gweithio yng Nghymru. Mae ein haelodau achrededig yn darparu cyngor arbenigol a diduedd, ar sail tystiolaeth, sydd wedi'i seilio mewn profiad rheng flaen o adfer cynefinoedd, asesu datblygiadau a chynghori ynglŷn â defnydd tir cynaliadwy. Byddwn yn darparu cymorth rheolaidd i llywodraethau ynghylch cyfraith a pholisïau amgylcheddol, gan helpu i ddylunio rheoliadau cadarn ac ymarferol. Mae ein presenoldeb cryf yng Nghymru, ynghyd â'n safonau proffesiynol, yn golygu y gall penderfynwyr ymddiried yn ein harweiniad ar sicrhau adferiad byd natur a Chymru gydnerth a llewyrchus¹.

Cyflwyniad

Mae Cymru mewn cyfnod o argyfwng o ran byd natur a'r hinsawdd. Erbyn 2023, roedd 1 o bob 6 rhywogaeth yn wynebu difodiant², dim ond 20% o gynefinoedd gwarchodedig oedd mewn cyflwr ffafriol³, a dim ond 40% o gyrff dŵr oedd yn cyflawni statws ecolegol "Da"⁴. O safbwynt pleidleiswyr, nid ystadegau damcaniaethol mo'r rhain; yn gyson, mae natur yn un o brif bryderon y cyhoedd, ochr yn ochr â chostau byw, y GIG, yr economi, a newid hinsawdd⁵.

Er deddfwriaeth a pholisïau cadarn, mae amgylchedd naturiol Cymru yn parhau i ddirywio wrth i beryglon o ran yr hinsawdd ddwysáu. Mewn blynyddoedd diweddar, gwelwyd rhai o'r cyfnodau sychaf erioed, ynghyd â sychder⁶, a dros fil o achosion o danau gwyllt⁷, tra bo stormydd sy'n digwydd yn fwyfwy aml wedi achosi llifogydd difrifol, difrod i eiddo, ar angen i gymunedau orfod eu gadael mewn argyfwng⁸.

Mae'r effeithiau hyn yn amharu ar bob agwedd ar fywyd: iechyd corfforol a meddyliol, diogelwch cartrefi, ac o ran bywoliaeth pobl; maent yn tarfu ar drafnidiaeth, addysg a mynediad i hanfodion, sicrwydd cyflenwadau dŵr ac ynni, ynghyd â gwydnwch y system fwyd yng Nghymru a'r economi wledig. Gall atebion ar sail ar natur fynd i'r afael â sawl problem; er enghraifft, gall ailwlychu mawndiroedd leihau'r perygl o danau gwyllt wrth hefyd atal llifogydd i lawr afonydd⁹.

Mae pleidleiswyr yng Nghymru eisiau gweld y llywodraeth bresennol a llywodraethau'r dyfodol yn gwneud mwy i fynd i'r afael â cholli byd natur¹⁰. Bydd hyn yn allweddol i sicrhau ffyniant hirdymor, yn ogystal ag o ran osgoi canlyniadau cyfreithiol, ac o ran enw da Cymru wrth iddi ymdrechu i gyflawni ei hymrwymadau o safbwynt sero net ac adfer natur.

I gyflawni Cymru gwirioneddol gydnerth, rhaid cyfateb yr uchelgais â chymau gweithredu, gyda: cyllid a buddsoddiad hirdymor, rheoleiddio cryf ac annibynnol, systemau monitro a data cadarn, atebion ar sail natur ar draws bob sector, ynghyd â buddsoddi yn y sgiliau a'r capasiti i gyflawni.



Creu Cymru gydnerth: camau gweithredu ar gyfer y Senedd

Camau ar y cyd i fynd i'r afael ag argyfyngau'r hinsawdd a byd natur

1. Gwneud gweithio gyda natur yn elfen allweddol o Bolisiau yng Nghymru

Mae deddfwriaeth yng Nghymru, gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, wedi gosod sylfaen gref. Ond i gyflawni nodau o ran yr hinsawdd, bioamrywiaeth a lles, rhaid sefydlu atebion ar sail natur (NbS) ar draws pob polisi. Trwy adfer a gwella amgylcheddau naturiol, fel afonydd, gwlyptiroedd, a morwellt, gall NbS ddal carbon, lleihau'r perygl o lifogydd, a chreu mannau iachach, gan gyflawni gwerth eithriadol am fuddsoddiad.

I gyflymu cynnydd, galwn am dasglu trawsadrannol i sicrhau bod NbS yn dod yn rhan annatod o benderfyniadau cenedlaethol, a dylid cyflawni hynny'n lleol gan bartneriaethau o amryw randdeiliaid sy'n uno cymunedau, cyrff cyhoeddus, a buddsoddwyr.

2. Cyflawni targedau plannu coed er lles yr hinsawdd a chymunedau

Croesawn ymrwymiad Cymru i darged Pwyllgor Newid Hinsawdd y DU o blannu 43,000 hectar o goetir newydd erbyn 2030. Mae llwyddiant yn dibynnu ar gynllunio strategol — rhoi'r goeden iawn yn y lle iawn, er lles byd natur, yr hinsawdd, a phobl — nid dim ond ehangu coetiroedd anffordorol. Er enghraifft, byddai ehangu brigdwf coed trefol i orchuddio 20% o dir trefol yn cryfhau seilwaith gwyrdd, gan ddarparu cysgod a chadw gwlybanaeth yn y pridd yn ystod hafau poethach¹¹. Cynigir cyfle hanfodol gan y Cynllun Ffermio Cynaliadwy i integreiddio coed o fewn ffermydd, er lles natur a chynhyrchu bwyd; ond rhaid gwarantu cyngor arbenigol o safon ynghylch creu a rheoli cynefinoedd, gan gynnwys coed a choetiroedd, i sicrhau canlyniadau parhaol.

3. Cynnal momentwm o ran adfer mawndiroedd

Mae mawndiroedd iach yn ased hanfodol yng Nghymru, i storio carbon, lleihau risg llifogydd, a hybu gwydnwch ffermio. Fe'n calonogir gan Llwyddiant Cymru o ran adfer 3,600 hectar o fawndir ers 2020¹², ond rhaid gweithio'n llawer cyflymach i gyflawni targed 2050 o 45,000 hectar.

Galwn ar Lywodraeth Cymru i gyflymu gwaith adfer, ynghyd â chydweithio â gwledydd eraill y DU i gyflwyno gwaharddiad parhaol ar gloddio mawn o dan y Ddeddf

Marchnad Fewnol, a sicrhau bod canllawiau cynllunio yn cael eu cynnal, yn enwedig o ran atal datblygiadau ar fawndir dwfn.

Diogelu 30% o'r tir, y môr, a dŵr croyw i sicrhau mwy o le i fywyd gwyllt a'n lles

1. Strategaeth natur gadarn, weithredadwy

Croesawn y targedau natur cyfreithiol rwymol ym Mil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau), ond rhaid eu cefnogi gan fframwaith clir, cydlynus, ag adnoddau digonol. Ar hyn o bryd, mae rhai elfennau o strategaeth natur Cymru'n dameidiog ac wedi dyddio: mae angen fersiwn gyfredol uchelgeisiol o'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur (NRAP), sy'n cydweddu â thargedau rhyngwladol ar gyfer 2030¹³; rhaid ail-lunio'r Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol (NRP) i gyd-fynd â'r fframwaith hwn; a dylid adolygu Datganiadau Ardal gyda chymunedau i sicrhau ymarferoldeb.

Mae angen canllawiau cliriach, gweithredadwy, ar awdurdodau cyhoeddus hefyd. Mae Archwilio Cymru wedi dangos nad yw sawl un yn gwybod am eu Dyletswydd Bioamrywiaeth Adran 6¹⁴. Rhaid mynd i'r afael â hyn drwy sicrhau cefnogaeth a bod y dulliau ar gael i gyrff allu cyflawni ymrwymadau Cymru.

2. Cyllid i reolwyr tir allu cyflawni a chynnal safonau ar gyfer OECMs

Gall Mesurau Cadwraeth Effeithiol Eraill Ar Sail Ardal (OECMs) chwarae rôl hanfodol o ran diogelu bioamrywiaeth y tu hwnt i safleoedd gwarchodedig dynodedig, a byddant yn allweddol o ran cyflawni'r diffyg presennol yn ymrwymiad Cymru i ddiogelu 30% o'r tir, y môr, a dŵr croyw erbyn 2030. Os yw rheolwyr tir am sicrhau a chynnal yr ardaloedd hyn, mae cyllid a chymelliadau hirdymor yn hanfodol. Bydd cefnogi gwaith rheoli OECMs drwy fecanweithiau ariannol dibynadwy yn galluogi cyrff cyhoeddus, cymunedau, ffermwyr, a rheolwyr tir i gynllunio ar gyfer tir, a'i reoli, er mwyn gwneud cyfraniad ystyrlon i rwydwaith adfer natur Cymru, wrth ddarparu cydfuddiannau¹⁵ hefyd.

Yn ogystal, dylai OECMs annog cydweithredu rhwng NGOs, grwpiau tirfeddianwyr, sefydliadau ymchwil ac, mewn rhai achosion, awdurdodau lleol, er mwyn rhannu adnoddau, fel cyllid, cyfraniadau mewn nwyddau, a chymorth technegol.

3. Sicrhau digon o gyllid a staff i gyflawni ymrwymadau i fyd natur

Hyd yma, mae ffrydiau cyllido blaenorol a phresennol wedi cefnogi gweithredu hanfodol o ran bioamrywiaeth;

ond mae llai o adnoddau o lawer ar gael na'r hyn sydd eu hangen i ddatrys yr argyfwng hinsawdd, sy'n golygu nad yw cyrff cyhoeddus yn gallu cyflawni eu dyletswyddau. Mae sawl awdurdod lleol yn adrodd bod cyllidebau annigonol, sy'n lleihau, a dibyniaeth ar swyddi tymor byr, a dim digon o arian i gynnal prosiectau fel rhai plannu coed, wedi lledu'r bwlch o ran y cyllid yng Nghymru ar gyfer natur¹⁶.

Mae taer angen datganiad clir o wir gost gweithredu strategaeth natur Cymru. Galwn am strategaeth gyllid gynhwysfawr ar gyfer natur, sy'n meintio'r anghenion o ran buddsoddiad, ac yn gosod y sylfaen ar gyfer cyllid hirdymor cynaliadwy, o ffynonellau cyhoeddus a phreifat.

Cynyddu gwaith adfer natur i gyfyngu llifogydd a lleihau llygredd mewn afonydd

1. Gosod targedau cyfreithiol rwymol ar gyfer adfer tir a diogelu cynefinoedd

Croesawn y targedau natur rhwymol ym Mesur yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) fel cam hanfodol ar gyfer adferiad hirdymor. Ond, i lwyddo, rhaid eu cyflawni'n amserol, a chael adnoddau priodol, a chanllawiau clir.

Dylid gosod targedau o fewn 12-18 mis o Gydsyniad Brenhinol, nid tair blynedd. Ochr yn ochr â hyn, rhaid i Lywodraeth Cymru adolygu adnoddau bioamrywiaeth¹⁷ adrannau, a darparu canllawiau cadarn i awdurdodau cyhoeddus allu cyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol¹⁸.

2. Partneriaethau Natur Lleol – meithrin cydweithrediad rhwng y llywodraeth, busnesau, NGOs, a chymunedau, i rannu adnoddau ac arbenigedd o ran ymdrechion i adfer natur

Chwaraeir rôl hanfodol gan Bartneriaethau Natur Lleol (LNPs) o ran cyflawni prosiectau bioamrywiaeth, ac atebion ar sail natur, ymgysylltu â chymunedau, a datblygu sgiliau gwyrdd. Ond mae cyllid tymor byr yn cyfyngu ar eu gallu i gynllunio, staffio, a chyflawni effeithiau parhaol.

Galwn ar lywodraeth nesaf Cymru i ddarparu buddsoddiad hirdymor i sicrhau dyfodol LNPs, a gwneud y gorau o'u cyfraniad i adfer natur a lles cymunedol.

3. Sicrhau bod atebion ar sail dalgylchoedd a natur yn ganolog i gynllunio buddsoddiadau diwydiant dŵr y dyfodol

Mae'r bwriad i greu rheolydd dŵr¹⁹ ar gyfer Cymru yn allweddol i sefydlu atebion ar sail dalgylchoedd a natur ar

gyfer rheoleiddio a chynllunio buddsoddiadau. I wireddu hyn, rhaid adolygu rhwystrau o ran polisiâu a rheoleiddio, a mynd i'r afael ag amharodrwydd cwmnïau a rheoleiddwyr i gymryd risgiau, a rhaid ailystyried y cylch pum mlynedd ar gyfer Adolygu Prisïau, er mwyn cefnogi cynlluniau arloesi hirdymor ar sail natur yn well.

Tyfu'r economi werdd i greu swyddi a lleihau costau byw

1. Eglurder ac uchelgais cyllid ar gyfer natur

Dylai llywodraeth nesaf Cymru weithio gyda rhanddeiliaid, ac ecolegwyr, i bennu amcanion clir ar gyfer Cyllid Natur, a diffinio'r canlyniadau o ran ecoleg, yr hinsawdd a chymunedau, y mae'n bwriadu eu cyflawni. Drwy sefydlu'r amcanion hyn, darperir y sicrwydd a'r tryloywder a fyddir gan fuddsoddwyr, rheolwyr tir, a NGOs, wrth sicrhau bod cyllid wirioneddol yn hybu adferiad bioamrywiaeth, yn gwrthsefyll y newid yn yr hinsawdd, a bod modd cyflawni hyn mewn modd cydlynol ar draws meysydd polisi cysylltiedig.

2. Buddsoddiad mewn swyddi gwyrdd a hyfforddiant i hybu hyder mewn gyrfaedd gwyrdd

Mae cyllid tymor byr ar gyfer swyddi gwyrdd yn tanseilio datblygiad sgiliau, ynghyd â chapasiti'r sector, a hyder mewn gyrfaedd ym myd natur. Mae Cymru eisoes yn wynebu prinder difrifol o ran arbenigedd mewn meysydd fel coedwigaeth a dŵr, sy'n waeth o ganlyniad i weithluoedd sy'n heneiddio ac yn lleihau. Mae canlyniadau Arolwg Gweithlu Natur²⁰ Llywodraeth Cymru'n cadarnhau bod y rhain yn rhwystrau eang a pharhaus rhag cyflawni cynnydd ystyrion o ran mynd i'r afael ag argyfyngau'r hinsawdd a byd natur.

Galwn ar Lywodraeth Cymru i gefnogi'r [gwasanaeth natur ar gyfer Cymru](#) fel seilwaith cenedlaethol ar gyfer prentisiaethau, hyfforddiant, ac ailsgilio, a gefnogir gan gyllid hirdymor i sicrhau swyddi gwyrdd sefydlog a gwerth chweil.

3. Cydnabod gwerth seilwaith gwyrdd, a buddsoddi ynddo

Mae seilwaith gwyrdd yn hanfodol i fynd i'r afael â heriau trefol, fel llifogydd, llygredd aer a'r cynnydd mewn tymheredd, wrth gyflawni aer a dŵr glanach, cymunedau gwydn, a lleoedd iachach i fyw ynddynt, fel y dangosir gan ddinasoedd sy'n arwain camau i gyflawni hyn, fel Paris²¹. Ond mae'n anochel y bydd colli capasiti o ran cynghori o fewn Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)²² yn gwario'r gallu i gyflawni hyn yng Nghymru.

Anogwn lywodraeth nesaf Cymru i hyrwyddo seilwaith gwyrdd drwy ei wneud yn rhan annatod o bob cynllun seilwaith, gan sicrhau cefnogaeth arbenigol o ran cynghori, a blaenoriaethu buddsoddiad sy'n cyflawni enillion o ran bioamrywiaeth a gwrthsefyll y newid yn yr hinsawdd.

Sefydlu systemau monitro cadarn i atal colli mannau gwyrdd ac atal llygredd

1. Corff monitro, cynghori a rheoleiddio cryf, annibynnol, ag adnoddau digonol

Mae CNC yn chwarae rôl ganolog o ran rheoli asedau naturiol y wlad, ond mae'n dal i wynebu diffyg parhaol o ran adnoddau wrth i'w gyfrifoldebau ehangu. O fonitro systemau morol a dŵr croyw, i orfodi camau i reoli llygredd a chyflawni targedau "30 erbyn 30", mae llwyth gwaith CNC yn cynyddu'n gyflymach na'i gapasiti.

Galwn ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod CNC yn cael cyllid sefydlog dros sawl blwyddyn, sy'n ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau amgylcheddol statudol yng Nghymru, a datrys problemau o ran etifeddiaeth a llywodraethiant, a sicrhau y cynhelir capasiti gweithredol a thystiolaeth dechnegol wrth i alwadau polisïau esblygu. Gellid ymdrin â hyn yn rhannol drwy weithredu'r egwyddor mai'r llygrwr sy'n talu, er mwyn i ddiwydiannau gyfrannu'n deg at gostau monitro a gorfodaeth.

2. Sefydlu corff diogelu cryf ar gyfer yr amgylchedd

Roedd gwersi gan [Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru](#) (AIDAC) yn amlygu nifer o anghenion allweddol ar gyfer Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru (OEGW) sydd ar y gweill, gan gynnwys bod rhaid iddi fod yn gwbl annibynnol, a bod ganddi reolaeth dros ei gweithrediadau, ei chyfathrebiadau, ynghyd â rheoli gwybodaeth a chaffael. Dengys y gwersi hefyd nad yw pwerau cryf o ran gorfodaeth ond yn gweithio gyda chefnogaeth ddigonol o ran cyllid ac arbenigedd²³.

Galwn am gyllideb wedi'i chlustnodi ar gyfer yr OEGW, a gytunir ar sail drawsbleidiol, i sicrhau capasiti hirdymor o ran goruchwyliaeth y tu hwnt i gylchoedd etholiadau'r Senedd.

3. Creu cronfa ddata gyhoeddus ganolog ar fannau gwyrdd a bioamrywiaeth

Mae diffyg cyllid ar gyfer gwaith monitro wedi gadael bylchau mawr yn sylfaen dystiolaeth amgylcheddol Cymru, gan ei wneud yn anodd i gynllunio ac olrhain adferiad byd natur. Mae elfennau allweddol o ansicrwydd yn parhau o ran cyflwr mawndir, pwysau ar amgylchedd y môr, cynefinoedd dŵr croyw, ac ardaloedd gwarchodedig, sy'n tansellio atebolrwydd a'r nod "30 erbyn 30".

Galwn am gyllid cyson a pharhaol ar gyfer monitro a mapio mannau gwyrdd a llecynnau cyfoethog o ran bioamrywiaeth, gan gynnal data cadarn, sydd ar gael i'r cyhoedd, ar gyfer adfer byd natur yng Nghymru.



Casgliad

Mae Cymru wedi cyrraedd croesffordd hanfodol bwysig, ym mhle mae gweithredu trawsnewidiol o ran yr hinsawdd, byd natur, a chymunedau, yn fater o frys ac yn gyraeddadwy. Bydd gwireddu uchelgeisiau ar gyfer Cymru gydnherth yn gofyn am gyllid sefydlog a buddsoddiad, ynghyd â rheoleiddio cryf ac annibynnol, system fonitro a data cadarn, ymdrech draws-sector i gyflawni atebion ar sail natur, a buddsoddiad yn ein gweithlu gwyrdd.

Mae CIEEM yn cefnogi llywodraethau a phenderfynwyr gyda'r gwaith o greu a gweithredu polisiau drwy ddarparu cyngor annibynnol, ar sail tystiolaeth, gan ymarferwyr ecolegol. Rydym yn barod i gefnogi'r gwaith o ddylunio atebion ymarferol, dichonadwy, yn seiliedig ar arferion gorau, sy'n sicrhau buddion hirdymor ar gyfer pobl Cymru a'n hamgylchedd naturiol.

Diolchiadau

Datblygwyd y ddogfen hon gan **Grŵp Polisi Cymru** CIEEM
mewn cydweithrediad â Thîm Polisiâu CIEEM.



Cyfeiriadau

1. <https://cieem.net/about-cieem/>
2. Smith et al., (2023). State of Nature Wales/Sefyllfa Natur Cymru, Partneriaeth Sefyllfa Byd Natur URL: www.stateofnature.org.uk
3. Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith (2025). Atal a gwrthdroi colli natur erbyn 2030. URL: <https://senedd.wales/media/ts0f1ekc/cr-ld16916-e.pdf>
4. Y Comisiwn Dŵr Annibynnol (2025). Y Comisiwn Dŵr Annibynnol: adolygiad o'r sector dŵr. URL: <https://www.gov.uk/government/publications/independent-water-commission-review-of-the-water-sector>
5. Yn seiliedig ar YouGov(<https://yougov.co.uk/topics/society/trackers/the-most-important-issues-facing-the-country?crossBreak=wales>) a SYG
6. BBC (2025). Long and hot summer causes 'massive' wildfire spike. URL <https://www.bbc.co.uk/news/articles/cp8z0rp3xpmo>
7. Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (2025). URL: <https://www.northwalesfire.gov.wales/news/2025/06/it-is-not-just-grass/>
8. Cyfoeth Naturiol Cymru. Adroddiad blynyddol rheoli perygl llifogydd 2023 i 2024. URL: <https://naturalresources.wales/evidence-and-data/research-and-reports/flooding-reports-evidence-and-data/flood-risk-management-annual-report-2023-2024/?lang=en>
9. Cyfoeth Naturiol Cymru (2025). Arwyddion bod mawndir gwlyb wedi cyfyngu llediad tanau gwyllt! URL: <https://naturalresources.wales/about-us/news-and-blogs/news/indicators-that-rewetted-peatland-stalled-wildfire-spread/?lang=en>
10. <https://www.rspb.org.uk/wales/news/welsh-public-supports-urgent-action-for-nature-new-poll-reveals>
11. Cyswilt Amgylchedd Cymru (2024) Llwybrau i 2030: 10 maes allweddol ar gyfer buddsoddi yn adferiad natur ledled Cymru. URL: <https://waleslink.org/pathways-to-2030-report/>
12. Cyfoeth Naturiol Cymru (2025). Cymru'n rhagori ar ei tharged adfer mawndir. URL: <https://naturalresourceswales.gov.uk/about-us/news-and-blogs/news/wales-smashes-peatland-restoration-target/?lang=en>
13. Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith (2025). Atal a gwrthdroi colli natur erbyn 2030. URL: <https://senedd.wales/media/ts0f1ekc/cr-ld16916-e.pdf>
14. Archwilio Cymru (2025). Y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau. URL: <https://www.audit.wales/publication/biodiversity-and-resilience-ecosystems-duty>
15. UK Environment Links (2025). 30by30 2025 UK Progress Report. URL: https://www.wcl.org.uk/assets/uploads/0/WCL_04_30x30Report2025_DIGITAL.pdf
16. Archwilio Cymru (2025). Y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau. URL: <https://www.audit.wales/publication/biodiversity-and-resilience-ecosystems-duty>
17. Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith (2025). Atal a gwrthdroi colli natur erbyn 2030. URL: <https://senedd.wales/media/ts0f1ekc/cr-ld16916-e.pdf>
18. Archwilio Cymru (2025). Y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau. URL: <https://www.audit.wales/publication/biodiversity-and-resilience-ecosystems-duty>
19. Y Comisiwn Dŵr Annibynnol (2025). Y Comisiwn Dŵr Annibynnol: adolygiad o'r sector dŵr. URL: <https://www.gov.uk/government/publications/independent-water-commission-review-of-the-water-sector>
20. <https://www.gov.wales/nature-workforce-wales-survey-2025>
21. Global Platform for Sustainable Cities (2024). How Paris is leveraging nature for climate resilience. URL: <https://www.thegpsc.org/knowledge-products/greening-cities/compendium-city-good-practice-series-how-paris-leveraging-nature>
22. Ymchwil y Senedd (2024). Mae CNC yn canfod £12m o arbedion. Beth y mae hyn yn ei olygu ar gyfer ei wasanaethau? <https://research.senedd.wales/research-articles/nrw-finds-12m-of-savings-what-does-this-mean-for-its-services/>
23. AIDAC (2025). Adroddiad y Gwersi a Ddysgwyd. URL: <https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2025-07/interim-environmental-protection-assessor-wales-lessons-learned-report.pdf>



CIEEM

Grosvenor Court
Ampfield Hill, Ampfield
Romsey, SO51 9BD

© 2026 Chartered Institute of Ecology
& Environmental Management
Rhif y Cwmni: RC000861
Elusen Gofrestredig (Cymru a Lloegr): 1189915
Rhif Elusen Gofrestredig (Yr Alban): SC054698

